**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**NAFTHE Cymru**

Cyflwyniad i'r Cynulliad: Pwysleisio rôl Cymdeithas Broffesiynol

Cynnal Addysg Uwch yng Nghymru a gwasanaethu nodau Addysg Uwch a rhai'r Cynulliad Cenedlaethol.

**1. Strwythur**

Cefnogi rôl Prifysgol Cymru fel corff dilysu Addysg Uwch yng Nghymru

Cefnogi statws cyfartal pob sefydliad Addysg Uwch, ond mae ein haelodau ym Mhrifysgol Morgannwg am ei gwneud hi'n glir eu bod yn awyddus i gynnal eu hannibyniaeth bresennol.

**2. Cyllido**

Uned adnoddau'n ganolog i gyrraedd nodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Newid methodoleg cyllido i hyrwyddo cydweithredu

Angen i gyllido 'gweithgaredd trydedd genhadaeth' yn ddigonol

**3. Cydweithredu**

Hoffem weld cynlluniau strategol fel integreiddio gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru.

Cymhelliant i annog cydweithio rhwng yr hen sector a'r un newydd mewn perthynas ag ymchwil, o ran yr RAE a'r drydedd genhadaeth.

**4. TGCh**

Dylai datblygiadau yn y maes hwn gefnogi gweithredu cynllun strategol deng mlynedd ar gyfer AU yng Nghymru.

Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i ddefnyddio TGCh fel methodoleg dysgu - ategu yn hytrach na disodli. [Bydd angen i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau Mynediad/Ehangu

oherwydd y math o fyfyriwr; mae'r costau cysylltiedig â sefydlu a rhedeg system o'r fath yn ôl rhai'n rhwystr mawr.]

**5. Addysg Uwch mewn Addysg Bellach**

Mae NATFHE yn cefnogi ehangu'r nifer a all gymryd rhan.

Mae Natfhe'n gwrthwynebu safbwynt y Fforwm – Mae graddau Sylfaen yn well ffordd ymlaen.

Rhaid i Addysg Uwch mewn Addysg Bellach fod o'r un ansawdd e.e. gafael ar adnoddau a gweithgaredd ysgolheigaidd.

Mae tâl ac amodau gwahaniaethau gwasanaeth yn creu problemau - wedi eu creu gan gyflogwyr.

**6. Safbwynt yr Undeb Llafur:**

Rydym yn fudd-ddeiliaid yn y ddadl hon ac rydym am gael ein cydnabod yn bartneriaid cyfartal mewn trafodaethau yn y dyfodol ar ddatblygiad Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru - bydd angen ein cefnogaeth ni a chefnogaeth ein haelodau er mwyn gweithredu unrhyw ailstrwythuro'n llwyddiannus.

Rhaid sefydlu cronfa ailstrwythuro er mwyn sicrhau na fydd unrhyw aelod o staff yn wynebu diswyddo gorfodol - y dewis arall yw y caiff pob newid ei wrthwynebu.

Rydym am weld ymrwymiad i gynnal bargeinio cenedlaethol (y DU) ar gyflogau ac amodau ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru.